# Bwyd a Diod yn yr Ysbyty Cwm Taf Morgannwg

Mae bwyd a diod ysbyty yn rhan hanfodol o ofal cleifion mewnol. Mae prydau maethlon a hydradiad digonol yn helpu cleifion i adsefydlu a gwella.

## Cefndir

Yn ystod ein gweithgareddau ymgysylltu haf 2023 a thrwy ein gwasanaeth eiriolaeth, clywsom fod darpariaeth bwyd a diod mewn ysbytai yn ardal Cwm Taf Morgannwg yn destun pryder.

## Methodoleg

Ymwelodd ein staff a gwirfoddolwyr ag ysbytai ledled Cwm Taf Morgannwg dros gyfnod o 3 wythnos yn ystod Ionawr, Chwefror, Ebrill a Mai 2024 i siarad â chleifion mewnol am eu profiad o amser bwyd.

## Adborth cleifion

“Dim digon o fwyd i mi, dwi ddim yn hoffi gofyn am fwy, dwi'n teimlo embaras.”

“Doedd dim bwyd ar gael pan gawson ni ein symud o’r adran damweiniau ac achosion brys i’r ward, dylai fod cyfathrebu rhwng wardiau, doedd neb yn gwybod nad oedden ni wedi bwyta.”

“Roedd y prydau yn addas ac roedd dewis da o fwyd.”

“Mae'r staff yn trefnu nosweithiau thema i gleifion ar y ward. Noson ‘chippy’ yw'r gorau!"

LLAIS


Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

## Canfyddiadau cadarnhaol

Roedd profiad y claf o fwyd a diod a'r cymorth a dderbyniwyd yn gadarnhaol ar y cyfan. Roedd llawer o gleifion yn mwynhau'r bwyd a diod ac yn canmol y staff arlwyo a nyrsio.

Roedd prydau poeth bob amser yn cael eu darparu fel opsiwn i gleifion






Clywsom fod bwyd a diod yn cael eu gosod o fewn cyrraedd hawdd i'r rhan fwyaf o gleifion, gyda staff yn gymwynasgar ac yn gefnogol

## Meysydd o bryder

Roedd diffyg opsiynau ar gyfer cleifion ag anghenion dietegol arbennig, ee cleifion yr oedd angen diet llysieuol neu goeliag arnynt. Nid oedd meintiau dognau'n cael eu cynnig na'u haddasu bob amser i ddarparu ar gyfer archwaeth cleifion.

Nid oedd statws prydau cleifion bob amser yn cael ei rannu a'i drosglwyddo rhwng staff. Digwyddodd digwyddiadau ar lefel ward ac ar ôl trosglwyddo o ward neu adran arall. Roedd y digwyddiadau hyn yn gadael cleifion yn newynog neu'n sychedig.

Nid oedd diodydd bob amser yn cael eu darparu i gleifion gyda'u pryd o fyd. Nid oedd jygiau dŵr bob amser yn cael eu hadnewyddu'n aml ac weithiau roedd yn rhaid i gleifion ofyn i staff eu hail-lenwi.



LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

## Cynrychiolaeth yn dilyn digwyddiad

Yn ystod ymweliad gwelodd ein staff ddigwyddiad a arweiniodd at Llais yn gwneud cynrychiolaeth ffurfiol i Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg
Roedd bwyd claf agored i niwed wedi cael ei adael allan o gyrraedd heb i staff wirio a oedd angen cymorth ar y claf, gan arwain at y claf yn tipio'r pryd poeth arno'i hun.

Fe wnaeth y bwrdd iechyd ymchwilio i'r digwyddiad. Cynhaliwyd prosiect â ffocws yn adolygu amseroedd prydau bwyd ar y cyd â'r arweinydd teuluoedd a'r adran arlwyo yn yr ysbyty lle digwyddodd y digwyddiad

Neilltuwyd nyrs i gefnogi gwesteiwr y ward yn ystod amser bwyd. Bydd y nyrs yn darparu bwyd i gleifion.

Nodir cleifion sydd angen cymorth a darperir cymorth priodol.

Mae Llais yn gorff annibynnol, cenedlaethol sy’n rhoi mwy o bŵer a dylanwad i bobl Cymru siapio eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn gweithio gyda chyrff iechyd a gofal cymdeithasol, llunwyr polisi ac eraill fel eu bod yn clywed eich llais ac yn defnyddio eich adborth i helpu i lunio gwasanaethau iechyd a gofal i ddiwallu anghenion pawb.

cwmtafmorgannwgenquiries@llaiscymru.org

01443 405830

LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care